



DE

WALES
CYMRU

Cynllun laith Gymraeg

Adolygwyd 2019



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Datblygwyd gyda chymorth

Gwasanaeth Cynllun Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Developed with the support of the

Welsh Language Commissioner's Progress Plan Service



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynnwys

Cyflwyniad – Gwobr Dug Caeredin	3
1. Egwyddorion Cyffredinol	4
2. Cysylltiadau Allanol	5-7
3. Gweinyddu Mewnol	8
4. Cyllid	9
5. Gweithredu a Monitro	9-10



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

Cyflwyniad – Gwobr Dug Caeredin

Mae elusen Dug Caeredin wedi ymrwmo i ddarparu rhaglen datblygiad personol ddifyr, heriol a gwerth chweil i bobl ifanc sydd o'r ansawdd gorau a'r ystod ehangaf.

Mae'r rhaglen ar ffurf cyfres o weithgareddau y mae pobl ifanc yn eu dewis ac yn eu gwneud er mwyn ennill Gwobr Dug Caeredin Efydd, Arian neu Aur. Rhaglen yw hi ar sail hunanddatblygu. Nid bod ar y blaen ac ennill sy'n bwysig. Mae'r rhaglen yn anghystadleuol sy'n ffocysu ar helpu pobl ifanc i gaboli neu ennill doniau, galluoedd neu safbwyntiau newydd.

Mae cwblhau rhaglen ac ennill y DofE yn rhoi profiad unigryw i rai sy'n cymryd rhan ac yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau meddwl angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd. O'r dechrau hyd y diwedd, mae'n antur fawr a fydd yn eiddo iddynt am byth.

Ein nod yw cryfhau'r DofE trwy barhau i ehangu ac estyn ei chyrraedd i'r cymunedau sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig heddiw.

Pennir blaenoriaethau'r DofE gan yr Ymddiriedolwyr, a chan Adran Weithredol y DU. Yng Nghymru rheolir gweithgareddau gan Gyfarwyddwr y DofE sydd â'i swyddfa yn Aberhonddu ac yn cael eu cefnogi gan staff DofE Cymru a Rhwydwaith Datblygu.

Mae Gwobr Dug Caeredin (y DofE) yn teilwra ei gweithgarwch i fod yn briodol i Gymru. O ran iaith, sefydlodd y DofE Gynllun Iaith Gymraeg am y tro cyntaf yn 1999 yn unol â chanllawiau a chyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Adolygwyd y cynllun y tro diwethaf ym mis Medi 2019.

Mae'r pedwerydd fersiwn diwygiedig hwn o'r cynllun yn amlinellu sut y bydd y DofE yn parhau i weithredu yng Nghymru gan ddefnyddio dwy iaith, wedi'i ategu gan yr egwyddor y bydd yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth wneud busnes yng Nghymru.

Mae'r cynllun gwirfoddol hwn yn berthnasol i holl weithgarwch Dug Caeredin yng Nghymru, i holl staff y DofE ac i wirfoddolwyr uniongyrchol sy'n gweithio yng Nghymru, ac i'r staff yn y DU y mae eu gwaith yn hybu ac yn darparu'r DofE yng Nghymru.

Mae'r DofE yn trwyddedu partneriaid yn y sectorau statudol a gwirfoddol i ddarparu'r DofE ac mae'n cynnal ansawdd a safonau'r DofE trwy gylchrediad o adolygiadau.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

1. Egwyddorion Cyffredinol

- 1.1 Bydd yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth wneud busnes yng Nghymru.
- 1.2 Bydd print mewn Cymraeg a Saesneg o'r un maint, yr un mor ddarllenadwy a'r un mor amlwg ym mhob deunydd a gynhyrchir gan y DofE.
- 1.3 Bydd deunyddiau a gaiff eu defnyddio yng Nghymru yn unig yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog (h.y. y ddwy iaith yn yr un ddogfen) cyhyd â bod hynny'n rhesymol ymarferol. Pan nad yw hynny'n bosib, bydd cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu dosbarthu ar yr un pryd.
- 1.4 Bydd yr holl arddangosfeydd cyhoeddus yn y ddwy iaith.
- 1.5 Bydd deunyddiau Cymraeg a Saesneg o'r un safon broffesiynol bob amser.
- 1.6 Ategir y cynllun diwygiedig hwn gan hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ar gyfer staff cyfredol a staff newydd sy'n gweithio yng Nghymru, ac ar gyfer staff yn y DU y mae eu gwaith yn hyrwyddo ac yn darparu'r DofE yng Nghymru.
- 1.7 **Polisiâu a Mentrau Newydd**
 - Wrth i'r DofE gynllunio a ffurfio polisiâu a mentrau newydd neu ddiwygiedig bydd yn asesu'r goblygiadau o ran iaith er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ymrwymadau'r cynllun.
 - Bydd polisiâu a mentrau newydd neu ddiwygiedig yn hybu ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo modd gan symud y sefydliad yng Nghymru'n nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

2. Cysylltiadau Allanol

2.1 CYFATHREBU YSGRIFENEDIG

- 2.1.1 Mae'r DofE yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 2.1.2 Atebir pob gohebiaeth ysgrifenedig yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol.
- 2.1.3 Bydd amserau ymateb yn y ddwy iaith yr un peth.
- 2.1.4 Bydd y DofE yn sefydlu cronfa ddata o'r rhai sydd am ymwneud â'r DofE trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.1.5 Bydd delwedd y DofE yng Nghymru yn gyfryw ag i ddenu unigolion a sefydliadau i synio amdanom fel sefydliad dwyieithog trwy'r defnydd a wnawn o'n hoffer swyddfa swyddogol.

2.2 CYFATHREBU AR LAFAR

- 2.2.1 Mae croeso i bobl siarad Cymraeg neu Saesneg wrth iddynt ymwneud â'r DofE.
- 2.2.2 Atebir y ffôn yn y pencadlys yng Nghymru gyda chyfarchiad dwyieithog a bydd negeseuon ar y peiriant ateb yn dweud yr un peth yn y ddwy iaith.
- 2.2.3 Bydd pob aelod o staff lle bo'r swydd-ddisgriaidd yn gofyn eu bod yn ateb y ffôn yn derbyn hyfforddiant mewn ateb gyda chyfarchiad dwyieithog ac i ymdrin yn briodol â galwadau gan siaradwyr yn y ddwy iaith. Lle ni bo aelod o staff ar gael sy'n siarad Cymraeg, bydd y sawl sy'n galw yn cael dewis naill ai i barhau yn Saesneg neu i dderbyn galwad yn ôl cyn gynted ag y bo modd gan rywun sy'n siarad Cymraeg.

2.3 CYFARFODYDD (MEWNOL)

- 2.3.1 Mewn cyfarfodydd cenedlaethol yng Nghymru lle mae rhagor na 30 yn bresennol, darperir cyfleusterau cyfieithu yn ôl y gofyn. Bydd cyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd yn gwahodd y rhai sy'n mynychu i roi gwybod i'r DofE am eu dewis iaith. Gwneir hyn mewn da bryd fel y gellir gwneud y trefniadau cyfieithu priodol ar gyfer rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Os na fydd cyfleusterau cyfieithu'n cael eu darparu, eglurir hyn ymlaen llaw.

2.4 CYFARFODYDD ERAILL (CYHOEDDUS)

- 2.4.1 Croesewir cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y DofE. Nodir hyn yn glir yn y dogfennau a negeseuon sy'n hysbysebu'r cyfarfod.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

- 2.4.2 Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog, a gwahoddir y rhai sy'n mynychu'r cyfarfod i hysbysebu'r DofE am eu dewis iaith. Gwneir hyn mewn da bryd fel y gellir gwneud trefniadau cyfieithu ar gyfer rhai di-Gymraeg.
- 2.4.3 Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael fel y bo'n briodol er mwyn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.
- 2.4.4 Lle bo aelod o'r cyhoedd yn rhoi digon o rybudd eu bod am siarad Cymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus a fyddai fel arall yn cael ei gynnal yn Saesneg, bydd y DofE yn ceisio parchu'r cais hwn trwy wneud trefniadau priodol i ddarparu cyfieithydd.
- 2.4.5 Bydd y DofE yn sicrhau y bydd Swyddog yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a godir yn Gymraeg.
- 2.4.6 Bydd y DofE yn croesawu cyfarfodydd a drefnwyd ymlaen llaw gyda'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bydd yn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud i unrhyw aelod o'r cyhoedd gael trafod materion yn Gymraeg os bydd yn dymuno gwneud hynny.

2.5 DEUNYDD PRINT

- 2.5.1 Bydd yr holl arddangosfeydd cyhoeddus yn ddwyieithog neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. (Cyf 1.3: Cyhoeddir taflenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd fydd yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn unig yn y ddwy iaith).
- 2.5.2 Bydd y DofE yn ceisio cynhyrchu deunydd sydd i'w ddefnyddio ledled y DU (gan gynnwys deunyddiau ar-lein ac i'w lawrlwytho ar gyfer rhai sy'n cymryd rhan yn y DofE) naill ai'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân lle y gellir gwneud hynny'n rhesymol ymarferol. (Cyf 1.3)
- 2.5.3 Cynhyrchir unrhyw ddeunyddiau uniaith megis arwyddion, ffurflenni a thafllenni sy'n deillio o Gymru yn ddwyieithog pan gânt eu hadnewyddu, a bydd maint, darllenadwyedd ac amlygrwydd y testun yn parchu egwyddor cydraddoldeb.
- 2.5.4 Cyfieithir yr holl ddeunydd gan gyfieithwyr proffesiynol. Gellir gofyn i staff sy'n siarad Cymraeg ddarparu cyfieithiadau cryno o ohebiaeth frys ac i brawfddarllen dogfennau.

2.6 Y CYFRYNGAU

- 2.6.1 Bydd y DofE yng Nghymru'n cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyfryngau ar lafar ac ar bapur.
- 2.6.2 Bydd staff a gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith y mae'r DofE yn gofyn iddynt siarad gyda'r cyfryngau'n derbyn cyfarwyddyd a gwybodaeth berthnasol ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr y DofE.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

2.7 CYFATHREBU ELECTRONIG A'R WEFAN

- 2.7.1 Bydd gwybodaeth sy'n berthnasol i'r DofE yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y DofE.
- 2.7.2 Lle bynnag y bo modd, bydd gohebiaeth e-bost wrth y DofE yng Nghymru a baratoir o flaen y llaw ac a anfonir i nifer fawr o bobl gyda'i gilydd yn ddwyieithog.
- 2.7.3 Atebir gohebiaeth e-bost bersonol a dderbynnir yn y Gymraeg yn yr un iaith.
- 2.7.4 System electronig ar lein yw eDofE, y mae pobl ifanc yn ei defnyddio i gofnodi eu cynnydd wrth gwblhau rhaglen Gwobr DofE. Wrth gofrestru mae'r ymgeiswyr yn derbyn "pecyn croeso" dwyieithog sy'n cynnwys yr holl fanylion sydd eu hangen i ddechrau'r rhaglen, ynghyd â "chardiau aseswyr" sy'n eu galluogi i ddarparu tystiolaeth o'u cyflawniadau.

Gall ymgeiswyr ac arweinwyr sy'n siarad Cymraeg gyflwyno eu tystiolaeth yn y Gymraeg a chyfathrebu yn eu hiaith o ddewis. Bydd ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hannog i gofnodi tystiolaeth o'u gweithgareddau yn yr iaith Gymraeg.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

3. Gweinyddu Mewnol

3.1 STAFF A RECRIWTIO

- 3.1.1 Bydd archwiliad blynyddol yn galluogi'r DofE i adnabod ble nad yw anghenion y Gymraeg yn cyfateb i broffil y staff ac i gynnal hyfforddiant neu ad-drefnu cyfrifoldebau i ymateb i'r anghenion.
- 3.1.2 Bydd pob hysbyseb swydd a gyhoeddir yng Nghymru yn y ddwy iaith, ag eithrio'r swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn hanfodol – fe gyhoeddir y rhain yn Gymraeg yn unig gydag esboniad yn Saesneg.

3.2 HYFFORDDI A DATBLYGU

- 3.2.1 Bydd y cynllun hwn yn rhan annatod o'r hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o staff yng Nghymru a staff mewn rhannau eraill o'r DU lle mae cyswllt â Chymru'n rhan annatod o'u gwaith.
- 3.2.2 Yn achos swyddi newydd, adwaenir yr angen am hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o'r broses sefydlu a bydd unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol i weithredu'r cynllun yn cychwyn yn ystod cyfnod prawf yr aelod hwnnw o'r staff.
- 3.2.3 Yn achos swyddi cyfredol, asesir yr angen am hyfforddiant iaith Gymraeg fel rhan o'r arolwg perfformiad a datblygiad personol blynyddol.

3.3 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

- 3.3.1 Mae'r DofE yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau ieuencid gwirfoddol a statudol ac â'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r DofE yn gweithio ar sawl lefel yn ei hymwneud ag eraill:
- Pan fydd y DofE yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
 - Pan fydd y DofE yn ymuno â phartneriaeth lle mae corff arall yn arwain, bydd mewnbyn y DofE i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd y DofE yn annog partion eraill i gydymffurfio.
 - Pan fydd y DofE yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y DofE yn gweithredu'n unol â'i Chynllun Iaith Gymraeg.
 - Pan fydd y DofE yn ymuno â phartneriaeth neu'n sefydlu partneriaeth, bydd yn holi ei darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, eu polisïau iaith neu am eu dulliau o weithredu'n ddwyieithog. Mewn unrhyw bartneriaeth, bydd y DofE yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r partneriaid eraill.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

4. Cyllid

- 4.1 Darperir y cynllun trwy gyfuniad o ymgorffori gwariant yng ngwaith craidd y sefydliad a chodi arian gyda'r bwriad o ategu'r gronfa graidd sydd ar gael trwy grantiau, ymddiriedolaethau, digwyddiadau a rhoddion.

5. Gweithredu a Monitro

5.1 GWEITHREDU

- 5.1.1 Bydd y cynllun yn rhan annatod o'n gweithgareddau cynllunio a'n prosiectau.
- Bydd rheolwyr llinell yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o oblygiadau'r cynllun i'w gwaith, ac yn eu deall.
 - Bydd gan Gyfarwyddwr y DofE yng Nghymru gyfrifoldeb cyffredinol am y cynllun. Efallai y bydd y gwaith o weithredu a monitro'r cynllun yn cael ei ddirprwyo i aelodau o dîm DofE Cymru.
- 5.1.2 Adroddir ar y cynllun yn flynyddol wrth Rwydwaith Datblygu Cymru. Bryd hynny, bydd y DofE yn adolygu ac yn diweddarau ei Chynllun Iaith Gymraeg fel bo angen.

5.2 MONITRO

- 5.2.1 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu.
- 5.2.2 Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cyfeirio at ddatblygiadau wrth gyflwyno'r cynllun hwn fel y bo'n briodol.

5.3 CWYNION

Mae DofE yn croesawu awgrymiadau gan ei staff a defnyddwyr gwasanaeth ynghylch sut gallwn wella ein Cynllun Iaith Gymraeg. Dylech gyfeirio eich awgrymiadau i sylw DofE Cymru, a bydd yr holl awgrymiadau yn cael eu hystyried yn ystod y cam monitro.

Os oes gennych gŵyn yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun hwn dylech ei anfon i'r cyfeiriad a nodir ar y dudalen nesaf.



The Duke of Edinburgh's Award —

Cynllun Iaith Gymraeg

5.4 RHOI CYHOEDDUSRWYDD I'R CYNLLUN

Bydd y DofE yn tynnu sylw'r cyhoedd, Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, aelodau o staff a defnyddwyr at y Cynllun Iaith Gymraeg yn barhaus. Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n ymwneud â'r DofE yn ymwybodol o'r cynllun a'i gynnwys. Bydd copïau dwyieithog o'r Cynllun ar gael ar wefan y DofE.

Dylai unrhyw un sydd am drafod y Cynllun hwn gyda'r DofE gysylltu â:

Gwobr Dug Caeredin - Cymru
Llawr Cyntaf, Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu, LD3 7HP

Ffôn: 01874 623086

E-bost: wales@DofE.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Datblygwyd gyda chymorth

Gwasanaeth Cynllun Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Developed with the support of the

Welsh Language Commissioner's Progress Plan Service